



DATBLYGU CYNLLUN TEITHIO LLESOL EICH YSGOL



Beth yw cynllun teithio llesol?

Mae cynllun teithio llesol ysgol yn gyfres o gamau gweithredu a bennwyd gan ysgol i leihau'r defnydd ar geir ac annog teithio llesol. Teithio llesol yw teithio i'r ysgol drwy gerdded, ar gefn beic neu ar sgwter.

Mae hon yn ddogfen fer a syml sy'n amlinellu'r camau gweithredu y bydd ysgol yn eu cyflawni i alluogi a hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol. Mae datblygu eich cynllun yn gyfle am brofiad dysgu cydweithrediadol sy'n llawn hwyl ac sy'n cynnwys cymuned gyfan yr ysgol yn gweithio ar y cyd i wneud teithio llesol yn haws i'r ysgol.

Mae gan Gyngor Caerdydd Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol yn ei le i gefnogi ysgolion wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynlluniau a rhoi camau gweithredu ar waith i gynyddu teithio llesol. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu rhywfaint o'r cymorth y gall y Swyddog Teithio Llesol ei gynnig. Cysylltwch â'r swyddog hwn os hoffech drafod eich cynllun.

Cyd-destun

Fel rhan o raglen Dinas sy'n gyfeillgar i Blant, mae'r cyngor yn datblygu rhaglen sy'n canolbwyntio ar 'strydoedd sy'n gyfeillgar i blant'. Strydoedd yw'r rhain sy'n annog ac yn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn heini ac yn gysylltiedig â'r ardaloedd lle maent yn byw, i deimlo'n ddiogel, ac i symud o gwmpas mewn modd sy'n addas ar eu cyfer nhw. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw sut y mae plant a phobl ifanc yn teithio i'r ysgol. Bydd datblygu cynllun teithio llesol ar gyfer eich ysgol yn nodi sut y gall cymuned yr ysgol gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn heini a theimlo'n ddiogel pan fyddant yn teithio i'r ysgol ac oddi yno. Dyhead y cyngor yw i bob ysgol yng Nghaerdydd fod â chynllun teithio llesol yn ei le erbyn mis Ebrill 2022.

Dechrau arni

Hoffai'r cyngor gefnogi ysgolion i ddatblygu cynllun teithio llesol sy'n cyd-fynd â'ch gweithrediadau, polisïau a rhaglenni orau. Yr agweddau pwysicaf ar gynllun teithio llwyddiannus yw ei fod yn bodloni eich anghenion a bod y camau gweithredu oddi fewn yn gyraeddadwy.

Er mwyn eich helpu i ddatblygu cynllun teithio llesol, mae'r cyngor wedi amlinellu rhai camau bras i chi eu dilyn. Eich penderfyniad chi fydd fformat y cynllun a sut y byddwch yn dewis cwblhau pob cam. Drwy gydol y canllaw hwn, mae dolenni i ddogfennau a thempledi a fydd yn eich helpu i gwblhau eich cynllun.

Cam 1

Yn seiliedig ar sut y mae eich ysgol wedi'i threfnu, nodwch sut hoffech ddatblygu eich cynllun teithio llesol. Pwy sydd angen ei gynnwys a pha gymorth sydd ei angen arnoch?

- Rydym yn argymhell ichi ffurfio grŵp er mwyn gweithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau i ddatblygu eich cynllun.
- Gallech ddatblygu eich cynllun drwy grŵp sy'n bodoli eisoes. Mae opsiynau posibl yn cynnwys llywodraethwyr, Llais Disgyblion Cymru, cyngor yr ysgol, y Swyddog Cyswllt Teuluol a Phwyllgor Eco'r ysgol, neu gallwch greu grŵp newydd yn benodol ar gyfer canolbwyntio ar deithio i'r ysgol.
- Gall y grŵp gynnwys disgyblion, rhieni, staff yr ysgol, llywodraethwyr a/neu'r gymuned – chi sy'n penderfynu.
- Penderfynu pa mor aml i gyfarfod.

Sut y gall y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol helpu:

Os hoffech drafod ynglŷn â sut i roi eich cynllun ar waith a sefydlu grŵp, gallwch gysylltu â Lindsey Brown, Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol, drwy anfon e-bost at lindsey.brown@caerdydd.gov.uk. Gallwn drefnu ymweliad i drafod ynghylch y camau cyntaf.

Cam 2

Dewis hyrwyddwr teithio i'r ysgol i arwain ar yr uchelgeisiau ar gyfer eich cynllun teithio llesol:

- Yr unigolyn hwn yw'r ysgogwr ar gyfer y cynllun teithio a bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth, denu cyhoeddusrwydd a darbwyllo eraill.
- Gallech ystyried cael mwy nag un hyrwyddwr, neu gallai'r grŵp cyfan fod yn hyrwyddwyr. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os yw eich grŵp yn cynnwys disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac athrawon.
- Yr hyrwyddwr teithio i'r ysgol bydd yr unigolyn i'w gysylltu ag ef ar gyfer unrhyw wybodaeth ynghylch y cynllun teithio.
- Gallech hefyd ystyried cael llywodraethwr 'teithio llesol' yn yr ysgol.

Cam 3

Hysbysu cymuned gyfan eich ysgol:

- Gwneud cyhoeddiad i gymuned gyfan yr ysgol i godi ymwybyddiaeth y byddai'r ysgol yn hoffi mynd i'r afael â materion a chynyddu teithio llesol.
- Mae'n ddefnyddiol pwysleisio pam mae eich ysgol yn datblygu cynllun, e.e. mynd i'r afael â thagfeydd traffig, gwella iechyd corfforol disgyblion ac athrawon.
- Argymhellir i chi rannu'r newyddion fod yr ysgol yn paratoi cynllun i helpu pawb i wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn teithio ac y bydd cyfle i bawb gymryd rhan.

- Defnyddiwch eich gwefan, pyrth rhieni, gwasanaethau ac arddangosfeydd celf yn yr ysgol i rannu'r rhesymau pam mae'r ysgol yn datblygu cynllun. Bydd cynnwys disgyblion i gynllunio'r negeseuon hyn yn helpu i ledaenu'r neges.
- Gallwch achub ar y cyfle hwn i ofyn am gymorth ychwanegol.

DEALL Y BROBLEM

Cam 4

Cynnal arolwg er mwyn canfod beth yw barn pobl am deithio i'r ysgol a beth sydd angen digwydd i gynyddu teithio llesol:

- Cynnwys rhieni, disgyblion a staff i nodi rhwystrau i deithio llesol a syniadau i'w gynyddu.
- Argymhellir i'r arolwg gynnwys cwestiwn ynglŷn â buddiannau cynyddu teithio cynaliadwy i'ch ysgol fel y gellir eu cynnwys yn eich cynllun.
- Byddai'n syniad da cynnwys cwestiwn ynglŷn â sut y mae disgyblion ac athrawon yn teithio i'r ysgol fel y bydd gennych ystadegau i fesur cynnydd.
- Gallech ystyried cynnal eich digwyddiad ymgysylltu yn ystod noson rieni neu osod tasg gwaith cartref neu ofyn i ddisgyblion redeg y gwaith ymgysylltu.
- Darperir enghreifftiau o gwestiynau arolwg yn Atodiad A.

Sut y gall y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol helpu:

Os hoffech gael cymorth i drefnu a rhedeg gweithgareddau ymgysylltu yn eich ysgol, gall y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol eich helpu i drefnu'r digwyddiadau hyn.

Cam 5

Cwblhau archwiliad o'r ardaloedd o gwmpas yr ysgol er mwyn gweld pa mor addas ydynt ar gyfer teithio llesol:

- Bydd archwilio cyfleusterau a llwybrau i'r ysgol yn eich helpu i ddeall dewisiadau a phryderon teithio.
- Bydd y broses archwilio yn eich helpu i ystyried anghenion mynediad ar gyfer pob dull o deithio cynaliadwy.

Sut y gall y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol helpu:

Bydd y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol yn gallu cefnogi eich ysgol i gwblhau'r broses archwilio. Gall y cyngor ddarparu mapiau i gefnogi'r gweithgarwch archwilio. Mae croeso i chi gynllunio eich arolwg eich hun neu, os yw'n well gennych, mae Sustrans Cymru a Strydoedd Byw wedi datblygu archwiliadau dwyieithog yn arbennig ar gyfer ysgolion:

- Arolwg Stryd Mawr Sustrans – <https://www.sustrans.org.uk/our-services/who-we-work/teachers/big-street-survey>
- Archwiliad Stryd Cymunedol Strydoedd Byw – <https://www.livingstreets.org.uk/media/2640/street-review-guidance.pdf>

CYNLLUN WEITHREDU

Cam 6

Creu eich cam gweithredu

- Argymhellir y cynhwysir yr elfennau canlynol yn y cynllun:
 - Defnyddiwch yr adborth yn eich arolwg i ddatblygu addewid cyffredinol i gynyddu a hyrwyddo teithio llesol i'ch ysgol.
 - Rhestrwch y buddiannau ar gyfer eich ysgol.
 - Lluniwch restr o gamau gweithredu ar gyfer eich cynllun a neilltuo rhywun i fod yn gyfrifol am bob gweithred.
 - Unwaith y diffinnir y camau gweithredu, gosodwch darged i fesur llwyddiant. Cynlluniwch sut i roi pob cam gweithredu ar waith, gan roi amserlen ar gyfer pob gweithred.
- Meddyliwch ynglŷn â sut y gall eraill yn yr ysgol ei helpu i roi'r camau gweithredu hyn ar waith.
- Meddyliwch ynglŷn â sut y gall y grŵp rannu ei gynlluniau a'i syniadau â'r gymuned gyfan – er enghraifft, gallech ystyried arddangosfa yn yr ysgol neu roi'r cynllun ar wefan yr ysgol.
- Mae croeso i chi gynllunio eich templed neu gynllun eich hun. Gellir dod o hyd i dempled o gynllun gweithredu gyda champau gweithredu wedi'u cwblhau yn Atodiad B.

Sut y gall y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol helpu:

Bydd y Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol yn gallu eich cynorthwyo o ran cynllunio ac arwain eich ysgol tuag at weithgareddau, digwyddiadau a chymorth i gwblhau eich camau gweithredu. Mae'r cyngor yn datblygu adnodd a fydd yn dod â'r holl weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael ynghyd i'ch cefnogi chi i gwblhau eich camau gweithredu. Bydd hyn yn eich helpu i nodi datrysiadau cyraeddadwy ar gyfer y problemau rydych wedi eu nodi.

Cam 7

Gwneud yn hytrach na dweud:

- Mae gwahanol fathau o gamau gweithredu y gall yr ysgol eu cymryd er mwyn annog teithio llesol i'r ysgol – er enghraifft, rhannu gwybodaeth, datblygu polisiau, ymgysylltu, a gwella'r amgylchedd adeiledig.
- Mae'r cyngor yn argymhell cynnwys amrediad o gamau gweithredu yn eich cynllun i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gynyddu teithio llesol.
- Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau y gallech eu cynnwys yn eich cynllun mae:
 - Parcio a chamu i gynyddu cerdded a lleihau nifer y cerbydau yn union y tu allan i'r ysgol
 - Sefydlu cynllun cyfnewid beiciau/sgwteri er mwyn galluogi disgyblion i gael mynediad at gyfarpar
 - Cwprdd clo ar gyfer llyfrau a chyfarpar
 - Hyfforddiant beicio i staff
 - Hyrwyddo cerdded a beicio drwy gymryd rhan yn Wythnos Cerdded i'r Ysgol a Big Pedal

- Gweithio gyda'r cyngor i nodi sut i wella amgylchedd y stryd ar gyfer cerdded a beicio
- Gwybodaeth teithio i ymwelwyr sy'n blaenoriaethu teithio llesol dros unrhyw ddull teithio arall

Cam 8

Mesur cynnydd:

Llongyfarchiadau, mae eich cynllun yn ei le a rydych chi wedi dechrau cymryd camau gweithredu.

- Er mwyn cadw'r momentwm, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu eich cynnydd o leiaf bob tri mis fel rhan o'ch gweithgor a mesur cynnydd cyffredinol bob 12 mis.
- Dylai'r camau gweithredu yn eich cynllun newid a chael eu diweddarw wrth i chi gyrraedd eich targedau.
- Fel gofyniad sylfaenol, argymhellir bod pob adolygiad yn mesur sut mae disgyblion a rhieni yn teithio i'r ysgol ac yn gofyn iddynt sut maen nhw'n teimlo ynghylch teithio i'r ysgol a pha broblemau sydd angen mynd i'r afael â nhw o hyd.
- Diweddarw'r cynllun yn seiliedig ar yr adborth.
- Gallech benderfynu dilyn cynllun achredu – er enghraifft, drwy raglen Ysgolion Iach neu drwy Sustrans Cymru – i helpu i ddathlu eich llwyddiant.
- Gallech benderfynu creu dathliad ynghylch eich cynnydd a'i gynnwys mewn digwyddiadau lleol/cenedlaethol fel Diwrnod Di-gar Caerdydd, Big Pedal neu Wythnos Cerdded i'r Ysgol. Gallai'r digwyddiad hwn gael ei gynnwys yn eich cynllun fel rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo.

Ydych chi'n barod i ddechrau eich siwrnai teithio llesol? Cysylltwch â'r Swyddog Teithio Llesol i'r Ysgol, Lindsey Brown, drwy ei ffonio neu drwy anfon e-bost.

Rhif ffôn: 029 (20873323)

E-bost: lindsey.brown@caerdydd.gov.uk



Atodiad A: Cwestiynau enghreifftiol

Sut ydych chi'n teithio i'r ysgol fel arfer?

Cerdded	Beicio	Sgwter	Bws ysgol
Trafnidiaeth gyhoeddus (trên/bws)	Car	Arall (nodwch)	

Beth ydych chi'n credu yw manteision cerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol?

Beth yw'r prif reswm dros eich dull teithio? (Ticiwch y rhai perthnasol)

Dyna'r opsiwn cyflymaf	Mae'n rhy bell i gerdded/beicio neu fynd ar sgwter	Tywydd gwael	Yn bryderus am ddiogelwch personol
Dyna'r opsiwn rhataf	Mae'r strydoedd yn rhy beryglus i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter	Mae'n fy nghadw'n heini	

Beth yw'r rhwystr fwyaf o ran cerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol?

Tagfeydd traffig	Ansicr o ran ble y mae llwybrau cerdded neu feicio	Dwi ddim yn gallu beicio	Pwysau o ran amser	Nid yw llwybrau cerdded a beicio'n hygyrch
Palmentydd a llwybrau o ansawdd gwael	Diffyg llwybrau cerdded a beicio	Mae'n teimlo'n rhy beryglus	Pellter teithio	Parcio ar y palmant
Dim unman i gadw fy meic neu fy sgwter	Arall (nodwch)			

Pa fesurau a fyddai'n eich annog i gyfnewid i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol am o leiaf un diwrnod yr wythnos?

Llai o draffig ar y ffyrdd y tu allan i'r ysgol

Rhywle i barcio a cherdded / beicio

Hyfforddiant (beicio / sgwter / diogelwch ar y ffyrdd)

Cyfleusterau gwell yn yr ysgol (lle i barcio beiciau ac ystafelloedd newid / cypyrddau clo)

Llwybrau cerdded a beicio gwell

Rhagor o wybodaeth am lwybrau sydd ar gael sy'n addas i gerdded a beicio

Cwmni ffrindiau i gerdded a beicio

Arall (nodwch)

Os oes gennych syniadau, datrysiadau neu enghreifftiau eraill i annog teithio llesol, rhannwch nhw â ni.

Atodiad B: Cynllun Teithio Llesol Ysgol – Fformat

1. Templed Cynllun Teithio Llesol Ysgol

Cynllun Teithio Llesol [nodwch enw'r ysgol]
Ein haddewid teithio llesol [nodwch yma pa newid rydych chi am iddo ddigwydd ym mhen 12 mis]
- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos - Cefnogi athrawon i feicio i'r ysgol un diwrnod - Nodi a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio sydd o fewn cyffiniau ein hysgol
Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gwblhau ein haddewid
Dod o hyd i gyllid a gosod 50 man parcio ar gyfer beiciau Byddwn yn hyrwyddo cerdded i'r ysgol bob dydd Gwener yn yr wythnos Diweddarw prosectws yr ysgol a'r adran i rieni ar y wefan i hyrwyddo cerdded i'r ysgol bob dydd Gwener Gwahodd y Cynllun Beicio i'r Gwaith i'n hysgol er mwyn darparu gwybodaeth i staff ar brynu beic Gwahodd elusen feicio arall i gynnal digwyddiad prynu beic ar gyfer staff Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i drefnu hyfforddiant beicio i staff Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i nodi llwybrau cerdded a beicio yn yr ysgol ac o'i hamgylch Creu arddangosfa yn ein derbynfa yn dangos y llwybrau cerdded a beicio sydd ar gael a'i dangos yn yr adran i rieni ar ein gwefan
Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi llwyddo
Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 50% i 70% Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15%

1. Cynllun gweithredu

Cam gweithredu	Perchennog	Amserlen	Sut olwg fydd ar lwyddiant?
Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i drefnu hyfforddiant beicio i staff	Llywodraethwr teithio llesol	Tymor yr haf 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15%
Byddwn yn hyrwyddo cerdded i'r ysgol bob dydd Gwener yn yr wythnos	Hyrwyddwr teithio llesol (athro)	Paratoi ar gyfer dechrau tymor y	Cynyddu nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 50% i 70%

		gwanwyn 2020	
Diweddaru prospectws yr ysgol a'r adran i rieni ar y wefan i hyrwyddo cerdded i'r ysgol bob dydd Gwener	Llywodraethwr teithio llesol gyda chymorth gan Swyddog Teithio Llesol Cyngor Caerdydd	Cwblhau yn barod ar gyfer disgyblion newydd yr ysgol ym mis Medi 2020	Cynyddu nifer y plant sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 50% i 70%
Gwahodd y Cynllun Beicio i'r Gwaith i'n hysgol er mwyn darparu gwybodaeth i staff ar brynu beic	Hyrwyddwr teithio llesol (athro) gyda chymorth gan Swyddog Teithio Llesol Cyngor Caerdydd	Tymor yr haf 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15%
Gwahodd elusen feicio arall i gynnal digwyddiad prynu beic ar gyfer staff	Hyrwyddwr teithio llesol (athro) gyda chymorth gan Swyddog Teithio Llesol Cyngor Caerdydd	Tymor yr haf 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15%
Dod o hyd i gyllid a gosod 50 man parcio ar gyfer beiciau	Cymdeithas Rhieni ac Athrawon	Wedi'u gosod ar gyfer dechrau tymor yr haf 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15%
Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i nodi llwybrau cerdded a beicio yn yr ysgol ac o'i hamgylch	Dosbarth Blwyddyn 5 yn gweithio gyda Swyddog Teithio Llesol Cyngor Caerdydd	Tymor y gwanwyn 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15% Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 50% i 70%
Creu arddangosfa yn ein derbynfa yn dangos y llwybrau cerdded a beicio sydd ar gael a'i dangos yn yr adran i rieni ar ein gwefan	Dosbarth Blwyddyn 5	Cyn diwedd tymor y gwanwyn 2020	Cynyddu nifer y staff sy'n beicio i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 5% i 15% Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol o leiaf un diwrnod yr wythnos o 50% i 70%